**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 439 (Cy. 67)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Ebrill 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *20 Ebrill 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Mai 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 21(1)(**1**) a 123(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 19 Mai 2023.

### Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003

**2.** Yn rheoliad 24K(5) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (enillion a cholledion gwerth teg cronfeydd buddsoddi cyfun)(**3**), yn lle "2023" rhodder "2025".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

18 Ebrill 2023

(**1**) Mae'r pwerau yn adran 21(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru yn rhinwedd adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Diwygiwyd adran 24 gan adran 238(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28).

(**2**) 2003 p. 26.

(**3**) O.S. 2003/3239 (Cy. 319), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/110 (Cy. 19); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003").

Mae rheoliad 24K o Reoliadau 2003 yn darparu na chaiff awdurdod lleol godi swm ar ei gyfrif refeniw i adlewyrchu unrhyw amrywiad yng ngwerth teg buddsoddiad awdurdod lleol mewn cronfa fuddsoddi gyfun. Yn hytrach, rhaid cofnodi'r symiau hynny mewn cyfrif ar wahân sydd wedi ei greu at y diben hwnnw yn unig ac a ddefnyddir at y diben hwnnw yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn cymhwysiad rheoliad 24K ddwy flynedd ariannol ychwanegol i 31 Mawrth 2025.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.